# CYNLLUN MARCIO TGAU

**HAF 2022**

**TGAU**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT – UNED 3**
**3570ND0-1**

© WJEC CBAC Ltd.

## CYFLWYNIAD

Cafodd y cynllun marcio hwn ei ddefnyddio gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Cafodd ei gwblhau ar ôl trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr a oedd yn ymwneud â'r asesu. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl i'r papur gael ei sefyll fel y gellid cyfeirio at yr ystod lawn o atebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Nod y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio yn cael ei ddehongli a'i gymhwyso yn yr un ffordd gan yr holl arholwyr.

Y gobaith yw y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir hefyd y gall athrawon, heb y fantais o gymryd rhan yng nghynhadledd yr arholwyr, fod â safbwyntiau gwahanol ynghylch rhai materion ynglŷn â manylion neu ddehongliad.

Ni all CBAC fod yn rhan o unrhyw drafodaeth na gohebiaeth yn ymwneud â'r cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**CBAC TGAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT – UNED 3**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2022**

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | | *Ticiwch **(✓)** y blwch wrth ymyl pob gosodiad i nodi a yw'n **gywir** neu'n **anghywir**.*<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi'r canlynol yn gywir:<br><br>(i) Cywir<br>(ii) Anghywir<br>(iii) Cywir | 3 | | | 3 |
| 2. | (a) | *Mae'r WHO (neu SIB yn Gymraeg) yn asiantaeth arbenigol i'r Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud ag Iechyd Cyhoeddus Rhyngwladol.*<br>*Nodwch beth mae'r llythrennau 'WHO' yn sefyll amdano.*<br><br>Rhowch 1 marc am yr ateb cywir<br><br>W-World H-Health O-Organisation | 1 | | | 1 |
| | (b) | *Amlinellwch beth yw diffiniad y WHO o iechyd.*<br><br>Rhowch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am ddiffiniad mwy cywir fel y gwelir isod:<br><br>*Cyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn yn hytrach na dim ond diffyg clefyd neu wendid.* | 2 | | | 2 |
| 3. | (a) | *Mae llawer o fentrau'r Llywodraeth yn ceisio cefnogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.*<br>*Amlinellwch **un** o egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus.*<br><br>Rhowch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am ymateb mwy cywir ynghylch un o egwyddorion Gofal **I**echyd Darbodus.<br><br>Dylai'r atebion gynnwys un o'r egwyddorion hyn:<br>• sicrhau iechyd a llesiant lle bydd y cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal drwy gydgynhyrchu.<br>• gofalu am y rhai â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf gan ddefnyddio'r holl sgiliau ac adnoddau yn effeithiol<br>• gwneud yr hyn sydd ei angen, dim mwy, dim llai; a pheidio â gwneud niwed<br>• lleihau amrywio amhriodol drwy ddilyn arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw. | 2 | | | 2 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | (b)<br><br>(i) | *Nodwch **un** rhaglen gweithgarwch corfforol* (*physical activity programme*).<br><br>Rhowch 1 marc am nodi rhaglen briodol o blith y canlynol:<br>• Aml-Sgiliau a Champau’r Ddraig<br>• Newid am Oes<br>• 5x60 | 1 | | | 1 |
| | (ii) | *Esboniwch beth yw pwrpas y rhaglen rydych chi wedi’i henwi.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc** am atebion sy'n esbonio pwrpas y rhaglen sydd wedi'i henwi:<br><br>**Prif bwrpas**<br><br>Aml-Sgiliau a Champau’r Ddraig – Cael pob plentyn i gymryd diddordeb mewn chwaraeon am oes. Nod y rhaglen hon yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i ddatblygu ei sgiliau corfforol. Mae wedi'i hanelu at blant cynradd rhwng 7 ac 11 oed. Ethos y dull aml-sgiliau yw bod pobl ifanc yn datblygu sgiliau allweddol sy'n berthnasol i sawl camp ac sy'n gallu cael eu trosglwyddo i bob math o gampau.<br><br>Newid am Oes – Pwrpas y rhaglen yw cymell a chefnogi pobl i wneud newidiadau parhaol a fydd yn gwella eu hiechyd. Mae'n adeiladu ar Bartneriaeth Genedlaethol fel y gallant, gyda'i gilydd, gynnal ymgyrchoedd mwy effeithiol a sicrhau bod negeseuon iechyd cyhoeddus yn cyrraedd y bobl hynny fydd yn cael budd gwirioneddol ohonynt. Maent yn gweithio gyda manwerthwyr cenedlaethol mawr, brandiau adnabyddus a sefydliadau mawr, gan gynnwys brandiau masnachol yn ogystal ag adrannau'r llywodraeth, gan ddarparu'r holl gefnogaeth a deunyddiau sydd eu hangen arnynt i newid canlyniadau iechyd a helpu i ddylanwadu ar ymddygiad pobl.<br><br>5x60 – Anelu at y targed o weld mwy o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol rheolaidd ac aml. Mae'r rhaglen yn helpu i greu’r amgylchedd angenrheidiol er mwyn i blant gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol allgyrsiol yn rheolaidd. Mae'r rhaglen yn sicrhau ei bod yn gwrando ar anghenion pobl ifanc drwy roi cyfleoedd yr hoffent fanteisio arnynt ac mae'n gwbl gynhwysol i bob person ifanc.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw atebion rhesymol eraill | | 5 | | 5 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| **3** | **4-5 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o brif bwrpasau'r rhaglen. Mae'r ymateb yn nodi'n glir amrywiaeth o bwrpasau. |
| **2** | **2-3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o brif bwrpasau'r rhaglen. Mae'r ymateb yn nodi'n glir o leiaf ddau bwrpas. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o un o bwrpasau'r rhaglen o leiaf. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. | (a) | *Mae Elis yn 3 oed. Mae'n mynd i'r feithrinfa, ac mae ganddo nam ar ei glyw* (*hearing impairment*).<br>*Trafodwch y ffyrdd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc** am atebion sy'n trafod y ffyrdd y mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis.<br><br>Gallai ymatebion gynnwys:<br>• drwy ei drin yn deg e.e. gadael iddo eistedd tua blaen y dosbarth neu'n agos i'r athro<br>• creu diwylliant cynhwysol i bawb ac Elis<br>• sicrhau nad yw polisïau, gweithdrefnau na phrosesau'n gwahaniaethu yn erbyn Elis<br>• sicrhau bod mynediad cyfartal i gyfleoedd er mwyn galluogi Elis i gymryd rhan lawn yn y broses ddysgu<br>• sicrhau bod gan y staff yn y feithrinfa y sgiliau i herio anghydraddoldeb a gwahaniaethu<br>• hyfforddi staff i'w galluogi i ddatblygu arferion sy'n galluogi Elis i ffynnu<br>• creu disgrifiadau swydd sy'n cynnwys ymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant<br>• parchu a gwerthfawrogi gwahaniaethau ym mhob plentyn, gan gynnwys Elis<br>• sicrhau bod adnoddau a gwybodaeth ar gael i ddiwallu anghenion Elis (e.e. dolenni clyw)<br>• gwneud i Elis deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i groesawu.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill ynghylch ffyrdd y gallai'r feithrinfa hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis. | | | 5 | 5 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **4-5 marc**<br>Trafodaeth ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r ffyrdd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis. Mae'r ymateb yn cynnwys barn wybodus ar o leiaf dair ffordd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis. |
| 2 | **2-3 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffyrdd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis. Mae'r ymateb yn cynnwys rhywfaint o farn ar o leiaf ddwy ffordd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis. |
| 1 | **1 marc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o un ffordd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis o leiaf. Nid yw'r ymateb yn cynnwys fawr o farn ar y ffordd mae'r feithrinfa'n gallu hybu cydraddoldeb a chynhwysiant i Elis. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch sut mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn ceisio cefnogi plant fel Elis.*<br><br>Rhowch hyd at **5 marc** am ddisgrifiad o sut mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn ceisio cefnogi plant fel Elis.<br><br>Gall atebion gynnwys y canlynol:<br>• fframwaith deddfwriaethol er mwyn cynllunio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol yn well, gan ei gwneud yn fwy effeithiol<br>• dull person-ganolog<br>• nodi anghenion yn gynnar<br>• sicrhau bod cefnogaeth a phrosesau monitro effeithiol ar waith<br>• addasu ymyriadau i sicrhau bod canlyniadau dymunol yn cael eu cyflawni<br><br>Rhowch farciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill sy'n disgrifio sut mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn ceisio cefnogi plant fel Elis. | 5 | | | 5 |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 3 | **4-5 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o sut mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn ceisio cefnogi plant fel Elis. Mae'r ymateb yn awgrymu o leiaf dair ffordd y gall gefnogi plant fel Elis. |
| 2 | **2-3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn ceisio cefnogi plant fel Elis. Mae'r ymateb yn awgrymu o leiaf ddwy ffordd y gall gefnogi plant fel Elis. |
| 1 | **1 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2017 yn ceisio cefnogi plant fel Elis. Mae'r ymateb yn awgrymu ffordd y gall gefnogi plant fel Elis. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) (i), (ii) | *Disgrifiwch **ddau** rwystr fyddai'n gallu wynebu unigolion sydd â nam ar y clyw pan fyddan nhw'n mynd i apwyntiad yn yr ysbyty.*<br><br>Rhowch hyd at **2 farc** yr un am ddau **rwystr cywir** fyddai'n gallu wynebu unigolion sydd â nam ar y clyw pan fyddan nhw'n mynd i apwyntiad yn yr ysbyty, fel:<br>• rhwystrau amgylcheddol fel sŵn cefndir a methu â chlywed y cyngor sy'n cael ei roi ar wasanaethau; methu â chlywed eu henw'n cael ei alw<br>• gallai problemau clywed amharu ar gyfathrebu.<br>• gall rhwystrau synhwyraidd olygu bod rhyngweithio cymdeithasol yn anodd, a gallai hyn ei gwneud yn anodd cyfleu gwybodaeth am ddewisiadau personol.<br>• gall rhwystrau emosiynol sy'n deillio o agweddau pobl eraill arwain at deimladau o stigma<br><br>Rhowch farciau am unrhyw rwystrau dilys eraill. | 4 [2,2] | | | 4 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (a) (i) | *Mae Emma yn 12 oed. Yn ddiweddar, mae athro Emma wedi dechrau pryderu am newid yn ymddygiad Emma. Rhestrwch **dri** arwydd o gam-drin posibl mewn plant.*<br><br>Rhowch **1 marc** yr un am dri arwydd o gam-drin posibl mewn plant:<br>• pwysau isel<br>• diffyg maeth<br>• iselder<br>• hunan-niweidio<br>• ofn<br>• marciau ar y corff<br><br>Rhowch farciau am unrhyw arwyddion dilys eraill o gam-drin posibl mewn plant. | 3 | | | 3 |
| | (b) | *Esboniwch sut dylai ysgol ddelio ag achos lle mae amheuaeth bod disgybl yn cael ei gam-drin.*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc** am esboniad manwl o sut dylai ysgol ddelio ag achos lle mae amheuaeth bod disgybl yn cael ei gam-drin.<br><br>Gall ymatebion gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:<br>• mae dyletswydd ar yr ysgol i roi gwybod am yr achos ar unwaith<br>• dylai fod gweithdrefnau adrodd ar waith a dylid eu dilyn<br>• strwythur rheoli clir ar waith i helpu staff<br>• sicrhau bod y polisïau'n cael eu rhoi ar waith yn gywir ac yn brydlon<br>• dylid cefnogi'r unigolyn<br>• mae cyfrinachedd yn hollbwysig drwy gydol y broses | | 6 | | 6 |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl i esbonio sut dylai ysgol ddelio ag achos lle mae amheuaeth bod disgybl yn cael ei gam-drin. Mae'r ymateb yn esbonio'n drylwyr ac yn cynnwys enghreifftiau perthnasol i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn glir. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth i esbonio sut dylai ysgol ddelio ag achos lle mae amheuaeth bod disgybl yn cael ei gam-drin. Mae'r ymateb yn esbonio'n glir ac yn cynnwys enghreifftiau i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn glir. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth i esbonio sut dylai ysgol ddelio ag achos lle mae amheuaeth bod disgybl yn cael ei gam-drin. Mae'r ymateb yn cyfeirio at enghreifftiau ond nid yw'r rhain bob amser yn uniongyrchol gysylltiedig â'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. | (c) (i) | *Enwch ac amlinellwch **un** enghraifft o ddeddfwriaeth bresennol sydd wedi'i llunio i amddiffyn plant a hybu eu hiechyd a'u llesiant.*<br><br>Rhowch **1 marc** am nodi deddfwriaeth bresennol o'r rhestr isod sydd wedi'i llunio i amddiffyn plant a hybu eu hiechyd a'u llesiant:<br>• Deddf Hawliau Dynol 1998<br>• Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008<br>• Deddf Plant 1989/2004<br>• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014<br>• Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 | 1 | | | 1 |
| | (ii) | Rhowch hyd at **2 farc** am amlinelliad o sut y gall y ddeddfwriaeth bresennol a enwir amddiffyn plant a hybu eu hiechyd a'u llesiant.<br><br>Gallai atebion gynnwys:<br>• rhoi mwy o wybodaeth, dealltwriaeth<br>• mynd i'r afael ag anghydraddoldebau gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd, a rhoi pwyslais ar atal<br>• sicrhau bod anghenion iechyd yn cael eu hasesu'n gywir a'u diwallu<br>• darparu ar gyfer y ffactorau sylfaenol sy'n effeithio ar iechyd, fel dŵr yfed diogel, glanweithdra, bwyd, tai, gwybodaeth ac addysg sy'n gysylltiedig ag iechyd, a chydraddoldeb rhywiol<br>• gwella iechyd a llesiant pobl leol ac, yn y tymor hwy, leihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill<br>• deall bod iechyd a llesiant yn hawl ddynol sylfaenol<br>• darparu ar gyfer cyfrifoldebau a hawliau rhieni er mwyn diogelu a hybu iechyd, datblygiad a lles plant<br>• sicrhau bod plant a phobl ifanc wrth galon unrhyw gynlluniau i ddiwallu eu hanghenion o ran llesiant.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill ynghylch sut y gall y ddeddfwriaeth bresennol a enwir amddiffyn plant a hybu eu hiechyd a'u llesiant. | 2 | | | 2 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6. | (a) | *Mae llawer o faterion yn effeithio ar iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru.*<br>*Mae'r graff isod yn dangos cofnodion o greulondeb ac esgeulustod yn erbyn plant o dan 16 oed.*<br>*Astudiwch y graff uchod. Yn y tabl isod, nodwch a yw pob gosodiad yn **gywir** neu'n **anghywir**.*<br><br>Rhowch **1 marc** am bob ateb cywir.<br>(i) Cywir<br>(ii) Anghywir | 2 | | | 2 |
| | (b) | *Gan ddefnyddio'r graff, disgrifiwch y patrymau yn y cofnodion o greulondeb ac esgeulustod yn erbyn plant o dan 16 oed.*<br><br>Rhowch hyd at **3 marc** am ddisgrifiad cywir o'r patrymau yn y cofnodion o greulondeb ac esgeulustod yn erbyn plant o dan 16 oed.<br><br>Gallai atebion gynnwys manylion am batrymau yn nifer a chyfradd y troseddau a ddangosir yn y graff:<br>• bu cynnydd yng nghyfradd y troseddau creulondeb ac esgeulustod a gofnodwyd yn erbyn plant o dan 16 oed ers 2002 - ac eithrio 2007/2008 pan welwyd gostyngiad i 3.8.<br>• rhwng 2002 a 2016 mae cyfradd y troseddau wedi cynyddu (cynnydd o 6.6)<br>• bu cynnydd sydyn yng nghyfradd y troseddau creulondeb ac esgeulustod a gofnodwyd rhwng 2014 a 2016, o 4.9 i 10.5. (cynnydd o 5.6)<br>• rhwng 2008 a 2013, roedd cyfradd y troseddau wedi aros yn weddol sefydlog<br>• mae nifer y troseddau mewn cyfrannedd uniongyrchol â chyfradd y troseddau a gwelir cynnydd sydyn hefyd rhwng 2014 a 2016 o 280 i 580<br>• yn 2007/2008 y cofnodwyd y nifer isaf o droseddau creulondeb ac esgeulustod yn erbyn plant o dan 16 oed, gyda thua 210 o droseddau. Cyfradd y troseddau ar gyfer y flwyddyn hon pan gafwyd y nifer isaf ar gofnod oedd 3.8<br><br>Rhowch farciau am unrhyw batrymau dilys eraill yn nifer a chyfradd y troseddau sy'n disgrifio'r patrymau yn y cofnodion o greulondeb ac esgeulustod yn erbyn plant o dan 16 oed. | | 3 | | 3 |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) (i) | *Disgrifiwch beth yw ystyr:*<br>*Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod*<br><br>Rhowch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am ddatganiad cywir o beth yw ystyr 'Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod'.<br><br>Dylai atebion gyfeirio at y canlynol:<br>Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn disgrifio amrywiaeth o brofiadau ingol neu drawmatig a all ddigwydd wrth i blentyn dyfu i fyny. Gall hyn gynnwys: trais yn y cartref; camddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol; problemau iechyd meddwl yn y teulu; cam-drin corfforol; cam-drin emosiynol; cam-drin rhywiol; esgeulustod; colled ar ôl i rieni wahanu neu ysgaru; colled o ganlyniad i brofedigaeth; aelod o'r teulu yn cael ei anfon i'r carchar. | 2 | | | 2 |
| | (ii) | *Disgrifiwch beth yw ystyr:*<br>*(a) Ecsbloetio*<br><br>Rhowch **1 marc** am ymateb sylfaenol a hyd at **2 farc** am ddisgrifiad cywir o beth yw ystyr ecsbloetio.<br><br>Dylai atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• mae ecsbloetio yn fath o gamdriniaeth<br>• math o gamdriniaeth sy'n digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, manipwleiddio neu dwyllo person<br>• weithiau, gwneir hyn yn gyfnewid am rywbeth neu er mwyn sicrhau mantais ariannol neu gynyddu statws.<br>• gall ecsbloetio gynnwys trais, gorfodi a bygwth am nad oes gan yr unigolyn ddewis arall oherwydd ei fregusrwydd cymdeithasol/economaidd a/neu emosiynol | 2 | | | 2 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (ch) | *Trafodwch sut byddai profi creulondeb ac esgeulustod yn ystod plentyndod yn gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolion drwy gydol eu cylchred bywyd (lifecycle).*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc** am atebion sy'n esbonio sut y byddai profi creulondeb ac esgeulustod yn ystod plentyndod yn gallu effeithio ar unigolion drwy gydol eu cylchred bywyd.<br><br>Mae'r atebion posibl yn cynnwys:<br>• gall achosi marwolaeth yn yr achosion gwaethaf<br>• anabledd corfforol a meddyliol<br>• straen a phroblemau iechyd corfforol<br>• lefel isel o hunan-barch a hunan-werth gwael<br>• methiant addysgol<br>• problemau emosiynol ac ymddygiadol<br>• anhwylderau cysgu ac anhwylder straen wedi trawma<br>• problemau iechyd meddwl<br>• anhwylderau bwyta a hunananafu<br>• camddefnyddio alcohol a chyffuriau<br>• risg uwch o ragor o erledigaeth a bod dioddefwyr yn troi yn droseddwyr<br><br>Rhowch farciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill sy'n esbonio sut y byddai profi creulondeb ac esgeulustod yn ystod plentyndod yn gallu effeithio ar unigolion drwy gydol eu cylchred bywyd. | | | 6 | 6 |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Trafodaeth ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl sy'n esbonio sut y byddai profi creulondeb ac esgeulustod yn ystod plentyndod yn gallu effeithio ar unigolion drwy gydol eu cylchred bywyd. Mae'r ymateb yn esbonio'n drylwyr ac yn cynnwys enghreifftiau perthnasol i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn glir. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n esbonio sut y byddai profi creulondeb ac esgeulustod yn ystod plentyndod yn gallu effeithio ar unigolion drwy gydol eu cylchred bywyd. Mae'r ymateb yn esbonio'n glir ac yn cynnwys enghreifftiau i ddangos y pwyntiau sy'n cael eu gwneud yn glir |
| 1 | **1-2 farc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n esbonio sut y byddai profi creulondeb ac esgeulustod yn ystod plentyndod yn gallu effeithio ar unigolion drwy gydol eu cylchred bywyd. Mae'r ymateb yn cyfeirio at enghreifftiau ond nid yw'r rhain bob amser yn uniongyrchol gysylltiedig â'r pwyntiau sy'n cael eu gwneud. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. | (a)<br><br>(i) | *Esboniwch sut mae'r materion cyfoes canlynol yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy (sustainable) yng Nghymru:*<br>*Gordewdra*<br><br>Dylai atebion gyfeirio at y canlynol:<br>• Mae pryderon am ordewdra ymysg plant yn cynyddu, gyda nifer mawr o unigolion yng Nghymru yn cael eu categoreiddio fel unigolion gordew.<br>• Er nad yw'n ymddangos bellach bod lefelau gordewdra yn cynyddu mor sydyn ag y gwnaethant yn ystod degawdau blaenorol, mae'n amlwg bod angen mynd i'r afael â'r broblem o hyd.<br>• Mae unigolion gordew yn wynebu mwy o risg o nifer o broblemau iechyd a all gael effaith sylweddol ar eu bywydau.<br>• Mae cyflyrau, gan gynnwys asthma, problemau cysgu, problemau cyhyrysgerbydol a diabetes math 2, i gyd wedi cael eu cysylltu â gordewdra, yn ogystal â risg uwch o ddatblygu cyflyrau iechyd fel clefyd cardiofasgwlar a diabetes yn ddiweddarach mewn bywyd sy'n effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.<br>• Mae perthynas rhwng gordewdra ac iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol, sy'n cael effaith. Mae gwaith ymchwil wedi canfod bod problemau ymddygiad yn fwy cyffredin ymhlith plant gordew na'u cyfoedion.<br>• Mae'r costau sy'n gysylltiedig â gordewdra yn sylweddol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill sy'n esbonio sut mae gordewdra yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru. | | 5 | | 5 |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **4-5 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl sy'n esbonio sut mae gordewdra yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r ateb yn nodi tair neu fwy o effeithiau. |
| **2** | **2-3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n esbonio sut mae gordewdra yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r ateb yn nodi dwy effaith. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n esbonio sut mae gordewdra yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r ateb yn nodi un ffordd sy'n awgrymu effaith gordewdra. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (ii) | *Esboniwch sut mae'r materion cyfoes canlynol yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy (sustainable) yng Nghymru:*<br><br>*Poblogaeth sy'n heneiddio (ageing population*)<br><br>• Mae cyflyrau iechyd penodol y mae disgwyl iddynt fod yn her i system gofal iechyd Cymru wrth i'r boblogaeth sy'n heneiddio gynyddu. Mae'r cyflyrau hyn yn cynnwys canser, dementia, cynnydd yn nifer yr achosion o gwympo, gordewdra, a diabetes. Mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau fel clefyd y galon, colesterol uchel, arthritis, gorbwysedd, strôc. Bydd rheoli'r cyflyrau cronig hyn, ynghyd â lefel anabledd yr unigolyn, yn rhoi mwy o bwysau ariannol ar y system gofal iechyd.<br>• Gallai cyflyrau iechyd penodol fod yn her i'r system gofal iechyd wrth i'r boblogaeth sy'n heneiddio gynyddu.<br>• Bydd yr angen am adnoddau'n parhau i gynyddu ym mhob lleoliad gofal iechyd<br>• Gellid disgwyl prinder gweithwyr gofal iechyd proffesiynol<br>• Mae cynaliadwyedd strwythurau a rhaglenni yn peri pryder<br>• Gall newidiadau i strwythur teuluol arwain at lai o ofalwyr teuluol anffurfiol<br><br>Rhowch farciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill sy'n esbonio sut mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru. | | 5 | | 5 |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **4-5 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl sy'n esbonio sut mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r ateb yn nodi tair ffordd neu fwy sy'n awgrymu effaith y boblogaeth sy'n heneiddio. |
| **2** | **2-3 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n esbonio sut mae'r boblogaeth sy'n heneddio yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r ateb yn nodi dwy effaith. |
| **1** | **1 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n esbonio sut mae'r boblogaeth sy'n heneddio yn effeithio ar ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant cynaliadwy yng Nghymru. Mae'r ateb yn rhoi un awgrym ynghylch effaith y boblogaeth sy'n heneiddio. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Esboniwch sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio cefnogi system gynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.*<br><br>Rhowch hyd at **6 marc** am atebion sy'n awgrymu sut y gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gefnogi system gynaliadwy ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru.<br><br>Gallai atebion gynnwys:<br>Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn unigryw i ni yng Nghymru ac yn cynnig cyfle i wneud newid hirbarhaol, positif i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'n cynnwys 7 nod llesiant, egwyddorion datblygu cynaliadwy a dyletswydd llesiant.<br><br>Y 7 nod llesiant yw:<br>1. Cymru lewyrchus – Dylai hyn arwain at system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant fwy arloesol a chynhyrchiol, gan gydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang er mwyn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon; Bydd yn datblygu pobl fedrus ac addysgedig a chyfleoedd gwaith ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.<br>2. Cymru gydnerth – creu cenedl sy'n gallu addasu i newid<br>3. Cymru iachach – datblygu cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl<br>4. Cymru sy'n fwy cyfartal – lle mae'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial.<br>5. Cymru o gymunedau cydlynus.<br>6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – e.e. cyfleoedd i unigolion siarad Cymraeg<br>7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br><br>Gallai atebion esbonio sut y bydd y Ddeddf yn sicrhau gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant sy'n ffit i weithio; gwella sgiliau'r gweithlu er mwyn creu darpariaeth fwy effeithlon i bawb; sicrhau cyfle cyfartal i bawb; canolbwyntio mwy ar gyfrifoldeb yr unigolyn i ofalu am ei iechyd ei hun. Er enghraifft: annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain; gallai gwasanaethau mwy effeithlon olygu eu bod yn fwy addas at y diben o ran atal profiadau niweidiol parhaus i blant a theuluoedd; helpu pobl i gynnal a gwella eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain; defnyddio dulliau arloesol er mwyn helpu pobl i gadw'n iach neu reoli eu pwysau er mwyn osgoi gorfod defnyddio'r system iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan sicrhau bod pobl yn cadw'n iach ac nad ydynt yn mynd yn ordew. | | 6 | | 6 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Ymateb da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl sy'n awgrymu sut y gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gefnogi system gynaliadwy ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru. Mae'r ateb yn nodi tair neu fwy o ffyrdd sy'n awgrymu sut y gall y Ddeddf gefnogi system gynaliadwy ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n awgrymu sut y gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gefnogi system gynaliadwy ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru. Mae'r ateb yn nodi dwy ffordd sy'n awgrymu sut y gall y Ddeddf gefnogi system gynaliadwy ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n awgrymu sut y gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gefnogi system gynaliadwy ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru. Mae'r ateb yn rhoi un rheswm i awgrymu sut y gall y Ddeddf gefnogi system gynaliadwy ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru. |
| | Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. | | *Trafodwch pa mor bwysig yw deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol o ran cydnabod (recognising) a chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.*<br><br>Rhowch hyd at 9 marc am atebion sy'n trafod pa mor bwysig yw deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol o ran cydnabod a chefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.<br><br>Mae'r atebion posibl yn cynnwys:<br><br>**Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg**<br>Y 3 phrif nod yw:<br>1. cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg<br>2. cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg<br>3. creu amodau ffafriol (seilwaith a chyd-destun)<br><br>**Mwy na geiriau**<br>Dyma'r fframwaith strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Y nod yw adeiladu ar y strategaeth wreiddiol i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu mamiaith, fel eu bod yn cael eu grymuso i chwarae rhan weithredol yn eu gofal.<br><br>**Y Cynnig Rhagweithiol**<br>Diben y fenter hon yw sicrhau bod y Gymraeg yr un mor weladwy â'r Saesneg, ac nad oes yn rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth ofyn am wasanaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cysylltu â chanllawiau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth ar y Gymraeg.<br><br>**Gallai atebion drafod nodau eraill hefyd:**<br>• Rhannu'r un weledigaeth<br>• Cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg.<br>• Cynyddu hyfywedd cymunedau Cymraeg fel lleoedd sy'n hwyluso'r defnydd o'r iaith<br>• Cynyddu lefelau trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu a sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno'n gynnar i'r Gymraeg fel rhan o system addysg sy'n cynnig sgiliau Cymraeg i bawb, a mwy o werthfawrogiad o sgiliau Cymraeg yn y gweithle.<br>• Cefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gwaith, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau.<br>• Gwneud y Gymraeg yn rhan o'r chwyldro digidol, sy'n rhychwantu tair thema'r strategaeth hon.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw bwyntiau dilys eraill. | | | 9 | 9 |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **8-9 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ba mor bwysig yw deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol o ran cydnabod a chefnogi’r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r ymateb yn cynnwys barn wybodus ar o leiaf bedwar pwynt.<br><br>Mae'r ymateb wedi'i strwythuro'n dda a'i fynegi'n glir, ac mae'r derminoleg, y gramadeg, yr atalnodi a'r sillafu'n gywir. |
| **3** | **6-7 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ba mor bwysig yw deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol o ran cydnabod a chefnogi’r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r ymateb yn cynnwys rhywfaint o farn ar o leiaf dri phwynt.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos defnydd priodol o derminoleg ac mae wedi'i fynegi'n ddigonol a'i strwythuro'n dda ar y cyfan gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu gweddol gywir. |
| **2** | **3-5 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ba mor bwysig yw deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol o ran cydnabod a chefnogi’r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Nid yw'r ymateb yn cynnwys fawr o farn.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o ddefnydd o derminoleg a strwythur gyda rhai gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o ba mor bwysig yw deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol presennol o ran cydnabod a chefnogi’r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth sy'n arwynebol berthnasol.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg a rhywfaint o dystiolaeth o strwythur ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb |



© WJEC CBAC Ltd.